

# Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Annwyl gyfaill,

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad i Gynllun Gwasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn cytuno y dylai'r manylion ynghylch sut y bydd yr egwyddor o ddwyieithrwydd yn cael ei gwireddu'n ymarferol gael eu gosod allan mewn cynllun gwasanaethau dwyieithog a gaiff ei baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Rhannwn gyda chi'r uchelgais y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n galluogi ei Haelodau a'i staff i weithio yn y ddwy iaith. Yn hyn o beth dylai ddangos arweiniad ymarferol a chadarn i bobol Cymru.

Wrth wraidd hyn mae darparu Cofnod o drafodion y cyfarfodydd llawn yn gwbl ddwyieithog. Dylai'r Ddeddf ei hun nodi yn eglur y bydd hynny'n digwydd.

Ym mis Awst 2009 fe ryddhaodd y Gymdeithas ddatganiad yn gresynu at benderfyniad Comisiwn y Cynulliad i roi'r gorau i gynhyrchu trawsgrifiadau cwbl ddwyieithog o gyfarfodydd llawn y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddem yn bryderus ar y pryd y gallai hyn osod cynsail i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gwtogi ar gyfieithu dogfennau pwysig. Mae hyn yn arbennig o wir heddiw ar adeg pan fo sefydliadau'n gorfod wynebu penderfyniadau anodd ynghylch cwtogi ar wasanaethau.

Fe ddylai Cofnod dwyieithog fod yn ganolog i fwriad y Cynulliad Cenedlaethol i roi "deunyddiau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad" (tudalen 7). Mae'n bwysig fod y cyfieithiad Cymraeg o bob datganiad a thrafodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ffeithiol ac yn ieithyddol gywir. Ymddiried y gwaith i gyfieithwyr cymwys proffesiynol yw'r unig ffordd o sicrhau hynny.

Yn dilyn y cyhoeddiad ddiwedd fis Gorffennaf 2011 fod Comisiwn y Cynulliad yn ystyried defnyddio Google Translate, fe anogwn y Comisiwn i ailystyried ai hwn yw'r llwybr technolegol mwyaf effeithiol i'w dilyn. Mae lle pwysig i ddefnyddio technoleg wrth gyfieithu ac fe ddylid ystyried pa feddalwedd cyfieithu arbenigol - fyddai'n cynnwys meddalwedd cof cyfieithu i'w defnyddio law yn llaw â meddalwedd cyfieithu peirianyddo - fyddai orau i'w

defnyddio gan gyfieithwyr cymwys er mwyn llunio cyfieithiadau'n gost-  
effeithiol.

Fe fyddai darparu Cofnod dwyieithog hefyd yn gyson â'r drefn ar gyfer darparu dogfennau dwyieithog a amlinellir yn yr adran ar dudalennau 7-8, 'Gwasanaethau dwyieithog: paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor'. Ni ellir wrth ddim gwell na hyn i hyrwyddo delwedd gyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol.

Rydym yn croesawu'n fawr y datganiad ar dudalen 15 "mai dim ond staff cyfieithu a chyfieithu ar y pryd achrededig fydd yn gwneud y gwaith cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd, ac fe'u hanogir i fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad proffesiynol tebyg". Roeddem yn hynod falch fod y Gwasanaeth Cyfieithu wedi mabwysiadu'r egwyddor mai dim ond aelodau Cyflawn a CAP o'r Gymdeithas a allai gael eu hystyried ar gyfer y cytundeb cyfieithu ar alw a osodwyd yn gynharach eleni. Dyma enghraifft o'r arweiniad ymarferol a chadarn a ddisgwyliwn gan ein Cynulliad Cenedlaethol.

Ac wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol barhau i annog staff sy'n siarad Cymraeg ac sydd â'r sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, fe'ch anogwn, lle mae hynny'n berthnasol, i roi pwyslais ar wella'u sgiliau ysgrifennu Cymraeg; yn ogystal â pharhau i roi cyfle i holl Aelodau a staff y Cynulliad wella'u Cymraeg llafar.

Os gall Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod o unrhyw gymorth i Gomisiwn y Cynulliad wrth i chi ystyried sut orau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu, fe fyddem yn falch o'ch cynorthwyo.

Geraint Wyn Parry

***Geraint Wyn Parry***

***Prif Weithredwr/Chief Executive***

***Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (the association of Welsh translators and interpreters)***